



Deall Adeiladau Traddodiadol

1 Adeiladau Traddodiadol: o adeiladau ‘clom’ a tho gwellt i dai tref a thai teras.

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag adeiladau traddodiadol yn Ne-Orllewin Cymru. Mae'n trafod beth ydynt, pam maent yn rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru, a pham y dylai pob un ohonom fod yn awyddus i'w deall yn well a gofalu amdanynt yn iawn.



Llun y clawr:
Bwthyn
Nantwallter
© Sain Ffagan
Amgueddfa Werin
Cymru

I'r chwith:
Teras, Glanaman
I'r chwith, isod:
Adeiladu o'r
newydd, Llandeilo

Beth yw 'adeilad traddodiadol'?

Adeiladau traddodiadol fel arfer yw'r rhai a adeiladwyd cyn 1919, gyda waliau solet yn hytrach na waliau ceudod, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau naturiol sy'n cynnwys cerrig, pridd, bricks, pren a chalch (a ddefnyddiwyd ar gyfer mortar, rendrad a phaent).

Roedd dulliau adeiladu traddodiadol yn cael eu defnyddio'n eang iawn yng Nghymru hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif, felly mae'r term 'traddodiadol' yn cynnwys amrywiaeth fawr iawn o ran math, arddull ac oes adeiladu. Mae'n cynnwys bythynnod, ffermdai ac adeiladau amaethyddol,

adeiladau diwydiannol, rhesi teras, tai tref, eglwysi, capeli a hyd yn oed blastai a chestyll. Mae'r rhan fwyaf o adeiladau rhestredig Cadw yn perthyn i'r categori 'traddodiadol', ond mae llawer o adeiladau traddodiadol sy'n dal i gael eu defnyddio o ddydd i ddydd fel cartrefi a busnesau heb gael eu rhestru.

Pam maent yn bwysig?

Mae hanes cymdeithasol a diwylliannol pob ardal yn cael ei adlewyrchu yn ei hadeiladau traddodiadol. Er nad yw rhai efallai'n edrych yn arbennig na'n gyffrous ar yr olwg gyntaf, mae pob un yn rhan unigryw o dirwedd hanesyddol Cymru.

Mae dulliau adeiladu modern yn cynhyrchu adeiladau generig, felly mae'n bosibl y bydd tŷ newydd yng Nghaerfyrddin yn union yr un fath â thŷ newydd ym Manceinion, Glasgow neu Ddulyn.

Mae'r defnyddiau a'r technegau a ddefnyddiwyd mewn adeiladu traddodiadol wedi creu'r adeiladau unigol, cyferbyniol



Uchod: Bwthyn Cymreig traddodiadol:
Castell Cottage, Ystrad Fflur
O Casgliadau Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

a hynod sydd wedi helpu i greu cymeriad nodweddiadol ein trefi, ein pentrefi a'n tirweddau cefn gwlad, a hunaniaeth y cymunedau sy'n byw ynddynt.

Pa olwg sydd ar adeilad traddodiadol Cymreig?

Mae'r rhan fwyaf o adeiladau traddodiadol yng Nghymru yn gymysgedd unigryw o ddylanwadau 'brodorol' lleol a'r mwy 'coeth' a ffurfiol. Cafodd arddulliau 'coeth' a ddyluniwyd gan benseiri eu defnyddio gyntaf yn nhai pobl gyfoethog ac adeiladau cyhoeddus mawreddog, ond yn raddol cawsant eu mabwysiadu a'u haddasu ar gyfer adeiladau pobl llai cyfoethog wrth i adeiladwyr lleol eu dehongli gan ddefnyddio eu technegau nhw'u hunain a'r defnyddiau oedd ar gael.

Cestyll a bythynnod


Mae Cymru'n cael ei chysylltu â chestyll yn nychymyg y cyhoedd. Yn wir, cestyll yn aml sy'n cael eu hystyried yn nodweddion diffiniol ein treftadaeth adeiledig. Ond gwir eicon adeiladau traddodiadol Cymru yw'r bwthyn.

Ar eu ffurf mwyaf sylfaenol a dyfeisgar, mae bythynnod Cymreig fel arfer â waliau isel ac wedi'u hadeiladu â cherrig llanw. Os oedd cerrig yn brin yna byddai cymysgedd o bridd, gwellt a thail anifeiliaid (clom) yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y waliau. Byddai pren, yn aml yn ei grynder, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr elfennau strwythurol, a byddai bangorwaith wedi'i orchuddio â chymysgedd



o glai a thail yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y simneiau. Defnydd toi yn cynnwys llystyfiant lleol - eithin, grug, rhedyn, brwyn a gwellt - fyddai'n cael ei ddefnyddio fel arfer ar gyfer y to.

Nid oedd bythynnod Cymreig yn cael eu dylunio'n ffurfiol. Byddent yn cael eu hadeiladu gan y bobl oedd yn byw ynddynt



a'r gymuned leol, drwy rannu eu gwybodaeth a defnyddio'u cyd-ddealltwriaeth o'r hyn ddylai tŷ fod. Nid efelychiadau gwael o rywbeth mwy cymhleth oedd y rhain o gwbl, yn hytrach roeddynt yn gwneud defnydd da o ddefnyddiau oedd ar gael yn lleol ac yn dangos ymwybyddiaeth o'r amgylchedd lleol sy'n ddiffygiol yn aml mewn arddulliau adeiladu datblygedig. Maent yn batrwm ar gyfer adeiladu cynaliadwy heddiw – mae pob elfen yn dadelfennu ac yn dychwelyd yn rhwydd i'r dirwedd lle cawsant eu hadeiladu, a lle maent yn perthyn.

Ar ôl iddynt gael eu gadael, nid yw bythynnod Cymreig yn para'n hir - ychydig iawn o enghreifftiau a welir heddiw sy'n hŷn na'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er hynny, maent yn cynrychioli traddodiad adeiladu sydd â gwreiddiau hynafol iawn. Mae nodweddion lleol amrywiol y traddodiad hwnnw wedi datblygu dros sawl canrif a hynny ar ei ben ei hun i raddau, ac mae'n briodol ei ddisgrifio fel 'pensaerniaeth gynhenid Gymreig'.

Y dudalen yma: © Hawffraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

I'r chwith:
Tŷ hir – Cwm Eilath,
Llansadwrn
I'r chwith, isod:
Tŷ hir – Tŷ'r Celyn,
Llandeilo

I'r dde: Toeau
o lechi Cymreig,
Llandeilo
I'r dde, isod:
Cymesuredd
tri bae Sioraidd,
Salem



Newid a pharhad

Mae traddodiadau adeiladu cynhenid yn para hiraf mewn cymunedau sy'n aros ar eu pennau eu hunain. Er hynny, roedd pob rhan o Gymru wedi cadw sylfaen o ddefnyddiau a thechnegau lleol nodweddiadol a barhaodd i liwio cymeriad ei hadeiladau. Er bod cartrefi mwy sylweddol wedi goroesi o gyfnodau cynharach, o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg mae'r gyfran fwyaf o adeiladau traddodiadol domestig yn Ne-Orllewin Cymru yn dyddio.

Y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Newidiodd tirwedd Cymru yn aruthrol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth i'r diwydiannu gychwyn ac wrth i'r rhwydweithiau cyfathrebu ddatblygu ac ehangu, roedd defnyddiau, syniadau a chyfoeth newydd yn hybu ailadeiladu ar raddfa eang.

Wrth i'r rheilffyrdd ddatblygu daeth y llechi a chwarelwyd yng Ngogledd Cymru yn gyffredin iawn. Arweiniodd hyn at ostyngiad sydyn mewn toi â gwellt a newidiodd cymeriad gweledol llawer o bentrefi a threfi bach Cymru yn gyfan gwbl.

Roedd cymesuredd Sioraidd yn cael ei weld i amrywiol raddau mewn adeiladau lleol. Gwelir effaith y dylanwad pensaernïol hwn yn y tai cerrig tri bae ag iddynt ddrws ffrynt yn y canol a simneiau ar y ddau dalcen sy'n gyffredin iawn ledled De-Orllewin Cymru.





Amgylchiadau unigol oedd yn penderfynu i ba raddau y byddai ailadeiladu'n digwydd yn lleol. Er bod rhai adeiladau yn cael eu hailadeiladu'n llwyr, ambell waith dim ond y rhannau gweladwy oedd yn cael eu newid, gan adnewyddu'r craidd blaenorol ar yr wyneb yn unig. Yn achos ffermydd, yn aml byddai'r tŷ'n cael ei ailadeiladu, a byddai'r tai allan hŷn yn cael eu cadw fel yr oeddent. Yna byddai'r ffermdy gwreiddiol yn mynd yn dŷ allan ychwanegol.

Roedd y ffermydd tlawd yn rhannu llawer o nodweddion pensaernïaeth bythynnod. Gadawyd llawer o'r adeiladau bychain hyn yn wag, yn enwedig yn yr ardaloedd amaethyddol ymylol, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er mwyn mynd i'r canolfannau diwydiannol oedd ar dwf.

Tai teras a threfi

Arweiniodd twf diwydiant ar raddfa fawr at gynnydd enfawr yn y boblogaeth mewn ardaloedd a oedd cyn hynny'n denau iawn eu poblogaeth. Roedd gweithluoedd mawr yn y gweithfeydd mwyngloddio, metel a'r dociau a achosodd yr angen am dai cymdeithasol ar raddfa na welwyd ei thebyg erioed o'r blaen. Roedd y ffyniant tai a ddeilliodd o hyn yn ystod yr Oes Fictoraidd a'r Oes Edwardaidd yn cael ei nodweddu gan arddulliau a ddilynai'r un patrwm unffurf. Roedd rhesi o dai teras yn cael eu codi ar leiniau cul, yn aml mewn strydoedd cul ar hyd llinellau adeiladu rheolaidd lle'r oedd y dirwedd yn caniatáu. Roedd arddulliau unffurf yn diffinio cymeriad ardaloedd penodol a strydoedd unigol.

I'r chwith: Fferm anghyfannedd. Fferm Ffosfudr, Ceredigion. **I'r dde:** Teras, Glanaman

Roedd teuluoedd mwy cyfoethog yn byw mewn tai pâr cymesur, neu 'filas' ar wahân oedd yn adeiladau mwy.

Adeiladwyd y rhain â cherrig a brics gyda theoeon llechi. Roedd maint unffurf y brics yn golygu y gellid masgynhyrchu ciliau ffenestri a drysau o'r un fath yn union. Hefyd roedd brics yn cael eu defnyddio fel addurn. Gan fod brics yn brin iawn yn Ne-Orllewin Cymru cyn y cyfnod hwn, roedd y defnydd helaeth iawn a wnaed ohonynt mewn ffasadau gweladwy adeiladau mawr yn ddatganiad amlwg o gyfoeth a statws.

Cymeriad a ffabrig

Mae safle a chymesuredd grwpiau o nodweddion, weithiau o wahanol ddyddiadau, yn cyfuno i ddiffinio cymeriad adeilad traddodiadol.

Nid yw'n hawdd nodi beth yn union yw cymeriad, ond yn sicr mae'n rhywbeth bregus, a gall 'moderneiddio' a gwaith adeiladu ansensitif ei niweidio'n rhydd. Mae colli elfennau unigol megis cyn simneiau, newid ffenestri codi llithrol a drysau pren, gosod ffenestri golygfa sy'n anghymesur o fawr i gyd yn arwain at gollu cymeriad gam wrth gam.

Y ffordd orau i ddiogelu cymeriad adeilad yw trwy ganiatáu iddo siarad drosto'i hun yn hytrach na'i orfodi i wneud datganiad. Mae gan y defnyddiau naturiol a ddefnyddir i saerïo adeiladau traddodiadol eu harddwch cynhenid nhw'u hunain. Trwy



dddefnyddio defnyddiau a thechnegau sy'n briodol i'ch adeilad chi byddwch yn sicrhau ei fod yn cadw'r nodweddion sy'n ei wneud yn arbennig ac unigryw.

Pam ddylwn i geisio gwybod mwy am fy adeilad traddodiadol?

Er eu pwysigrwydd diwylliannol, mae llawer o adeiladau traddodiadol yng Nghymru wedi cael eu niweidio o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth a gofal amhriodol.

Gellir dadlau bod adeiladau traddodiadol mewn mwy o berygl heddiw nag erioed o'r blaen. Am ran helaeth o'r ugeinfed ganrif roedd elfennau hŷn a llai 'dymunol' adeilad yn cael eu orchuddio'n unig, ond mae'r duedd ar hyn o bryd i ailfodelu adeilad yn sylfaenol wedi arwain at lawer iawn o ymyrryd yn ffabrig yr adeilad.

Bydd cael mwy o wybodaeth am eich adeilad traddodiadol yn eich helpu i'w ddeall, i adnabod y nodweddion sy'n ei wneud yn lle arbennig, ac i ofalu amdano mewn modd priodol.



Fila Fictoraidd, Llangadog

adeilad yn perthyn i dirwedd ddatblygedig eich ardal. Mae gan swyddfa leol Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol ac Archifdy'r Cyngor Sir gopiâu o lawer o fapiau a dogfennau hanesyddol, a gallant eich helpu i ddod o hyd i ddeunydd sy'n berthnasol i'ch adeilad traddodiadol chi.

Sut y galla' i gael rhagor o wybodaeth?

Trwy edrych yn ofalus ar eich adeilad fe welwch sut y cafodd ei adeiladu, a sut y cafodd ei ddefnyddio, a sut mae wedi datblygu dros amser. Bydd yr amrywiol ddefnyddiau ac arddulliau yn awgrymu ym mha drefn y cafodd y gwahanol rannau eu hadeiladu.

Mae'n bosib fod elfennau cynharach yn dal i fod o dan y newidiadau. Efallai bod lleoedd tân a simneiau a orchuddiwyd yn dal i fod o fewn y waliau. Mae'n bosib fod hen bren yn y to a hyd yn oed yr hen ddefnyddiau toi yn dal i fod o dan orchuddion toeon, a gall lloriau cynharach fod o dan y sment a ddefnyddiwyd ar gyfer lefelu.

Mae hen luniau, gweithredoedd a dogfennau gwerthu yn gallu cynnwys cliwiau am orffennol eich adeilad. Mae mapiau hanesyddol yn arbennig o ddefnyddiol, a gallant ddangos sut mae'r

Rhagor o Ddeunydd Darllen

Blundell, C. 2007: *Precious Inheritance.*

The conservation of Welsh Vernacular Buildings.

Eurwyn William: *Y Bwthyn Cymreig.*

Peter Smith: *Houses of the Welsh Countryside.*

Iorwerth C. Peate: *The Welsh House.*

Enwau cyswllt

Canolfan Tywi: 01558 824271

www.canolfantwyi.org.uk

The Society for the Protection of Ancient Buildings (SPAB): 020 7377 1644

www.spab.org.uk

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) 01970 621200

www.cbhc.gov.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed: 01558 823121

www.dyfedarchaeology.org.uk

Cadw: 01443 336000

www.cadw.wales.gov.uk

Prif Awduron

Helen Whitear & Tom Duxbury



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government